

Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Strategaeth Ryngwladol

1. Wrth i'r dyddiad ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd nesáu, mae cysylltiadau rhyngwladol yn bwysicach nag erioed o'r blaen. Er mwyn cydnabod hyn, ym mis Rhagfyr 2018 creodd Llywodraeth Cymru ei swydd Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol gyntaf, er mwyn symud yr agenda hon yn ei blaen ar yr adeg dyngedfennol hon.
2. Yn ystod yr ugain mlynedd ers sefydlu'r llywodraeth ddatganoledig, rydym wedi meithrin cysylltiadau cryf â gwledydd eraill, a rhanbarthau a rhwydweithiau ledled Ewrop. Mae'r posibilrwydd y bydd y DU yn ymadael â'r UE yn newid y fframwaith yr ydym yn gweithredu ynddo, er bod ein huchelgais yn aros yr un fath, waeth beth yw natur y bartneriaeth rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.
3. Bydd ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn arwain at newidiadau radical yn yr amgylchedd masnachu rhyngwladol, a bydd yn rhaid inni gryfhau ein ffyrdd o weithio mewn partneriaeth ar draws Cymru, er mwyn tynnu ynghyd ymdrechion pawb a llwyddo i gyflawni er budd pawb.
4. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i lunio agenda dynamig sy'n cefnogi busnesau, ac yn tynnu ar yr amrywiaeth ragorol o asedau sydd gan Gymru er mwyn ei hyrwyddo'n rhyngwladol. Penllanw'r gwaith hwn fydd gweithredu Strategaeth Ryngwladol gynhwysfawr newydd a fydd yn rhoi llais grymus i Gymru yn Ewrop a thu hwnt.
5. Bydd y gwaith o ddatblygu'r strategaeth yn cael ei gefnogi gan grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol, a chan canlyniadau a gesglir yn sgil ymgynghori â'r cyhoedd. Bydd yn bosibl mireinio'r strategaeth wrth i'n perthynas â'r UE ddod yn fwy eglur.
6. Fel rhan o'i waith, bydd y grŵp yn cynghori'r Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol ar y blaenoriaethau ar gyfer datblygu ein cysylltiadau rhyngwladol. Mae'n cynnwys aelodau sy'n cynrychioli amryw o feysydd sy'n ymwneud â'r canlynol:
 - yr economi – buddsoddi uniongyrchol o dramor ac allforio
 - y sector gwasanaethu
 - delwedd
 - cysylltiadau diplomataidd
 - digidol
 - y byd academiaidd
 - y gymuned ryngwladol

7. Bydd y grŵp yn cyfarfod deirgwaith yn ystod cam datblygu'r strategaeth.
8. Hefyd, bydd y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol yn cyfarfod â rhanddeiliaid i drafod y Strategaeth, ac mae'n awyddus i gael sylwadau drwy gynnal ymgynghoriad ehangach.
9. Mae croeso i'r Cyngor roi ei sylwadau ar flaenoriaethau rhyngwladol Cymru.